# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Siambr y Cyngor – Neuadd y Sir, Llandrindod**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 22 Chwefror 2018**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

16 Chwefror 2018

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| **1.** | **YMDDIHEURIADAU** |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| **2.** | **COFNODION** |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir.
(Tudalennau 1 - 56)

| **3.** | **DATGANIADAU O DDIDDORDEB** |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| **4.** | **YSTYRIED ADRODDIAD Y PANEL CRAFFU CYLLID AR Y GYLLIDEB** |
|---|---|

Ystyried adroddiad y Panel Craffu Cyllid ar y gyllideb.
(Tudalennau 57 - 62)

| **5.** | **Y GYLLIDEB AR GYFER 2018-19, STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2018-2023 A RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2018-2023** |
|---|---|

Ystyried y gyllideb ar gyfer 2018-19, Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2018-23 a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018-2023.
(Tudalennau 63 - 670)

| 6. | LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2016-17 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU |
|---|---|

Ystyried Llythyr Archwilio Blynyddol 2016-17 Swyddfa Archwilio Cymru.
(Tudalennau 671 - 802)

| 7. | TROSGLWYDDIADAU CYFALAF |
|---|---|

7.1. **Trosglwyddiad ar gyfer Adnewyddu Ty Ladywell**

(Tudalennau 803 - 806)

7.2. **Trosglwyddiad ar gyfer Adeilad Ysgol Cynradd ac Uwchradd Newydd ar gyfer Ysgol Bro Ddyfi**

(Tudalennau 807 - 810)

| 8. | ESTYNIAD I DYMOR Y SWYDD FEL AELOD ANNIBYNNOL (LLEYG) AR Y PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor.
(Tudalennau 811 - 812)

| 9. | ARGYMHELLION GAN Y PWLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
|---|---|

Ystyried argymhellion gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
(Tudalennau 813 - 814)

| 10. | PENODIADAU I BWYLLGORAU |
|---|---|

Nodi'r penodiadau canlynol i bwyllgorau a wnaed gan grwpiau gwleidyddol ac a gymeradwywyd gan y Swyddog Monitro o dan bwerau cyffreddinol dirprwyo a roddwyd gan y Cyngor ar 16 Mai 2013:

Penodwyd y Cynghorydd Sir Gareth Pugh i'r Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy yn lle'r Cynghorydd Sir Mark Barnes.

Penodwyd y Cynghorydd Sir Joy Jones i'r Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 yn lle'r Cynghorydd Sir Ange Williams.

Penodwyd y Cynghorydd Sir Jon Williams i'r Pwyllgor Cyflogaeth ac Apeliadau yn lle'r Cynghorydd Sir Ange Williams.

| 11. | RHYBUDD O GYNNIG |
|---|---|

11.1. **Rhybudd o Gynnig - Ildio Ffioedd Cofrestru**

Mae £1.5 miliwn ar gael gan Lywodraeth Cymru i gefnogi awdurdodau lleol i gael gwared ar ffioedd claddu ac amlosgi i blant yng Nghymru. Bydd hyn yn dod i rym ar unwaith ac yn para tan 2020.

Yn anffodus nid yw’r ffioedd cofrestru marwolaethau plant wedi cael eu dileu fel rhan o hyn ac maent yn parhau i fod yn ffioedd statudol. Yng ngoleuni hyn, rydym yn galw ar gyngor sir Powys i ddilyn cyngor Sir Ceredigion a rhoi'r gorau i'r ffioedd hyn.

Cynnig

Rydym yn galw ar gyngor sir Powys i waredu’r holl gostau ar gyfer cofrestru marw-enedigaeth, marwolaeth baban cyn ei gofrestru, yn ogystal ag i bawb dan 18 oed.

Cynigydd: Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe
Eilydd: Cynghorydd Sir Pete Roberts

11.2. **Rhybudd o Gynnig - Band Eang**

**CYNNIG**

Yn wyneb cyhoeddi'r adroddiad gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin, gweler isod, yn tynnu sylw at y ffaith bod Sir Drefaldwyn yn y 10 etholaeth uchaf â’r cyflymder band eang gwaethaf, mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru wrth benderfynu ar y contract buddsoddi £80m newydd ar gyfer ehangu mynediad i fand eang ffeibr, i flaenoriaethu Sir Drefaldwyn fel ardal darged allweddol er mwyn sicrhau mynediad at wasanaethau a galluogi datblygiad cynaliadwy o'n heconomi.

Cynigydd: Y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan
Eilydd: Cynghorydd Sir Bryn Davies

**LINES UNABLE TO RECEIVE 'DECENT' SPEEDS**

Around 3% of premises can't receive 'decent' download speeds - defined by Ofcom as 10 Mbps. The inability to receive 10 Mbps is an eligibility criterion for the planned Universal Service Obligation.

In the majority of constituencies, less than 2% of lines are unable to receive 10 Mbps. However, there are parts of the UK where the figure is much higher. The table below shows our estimate of the ten constituencies with the highest proportion of lines unable to receive decent download speeds.

| HIGHEST % UNABLE TO RECEIVE DECENT SPEEDS (10 Mbps) | |
|---|---|
| Kingston upon Hull East | 33% |
| Orkney and Shetland | 25% |
| Ross, Skye and Lochaber | 25% |
| Na h-Eileanan an Iar | 20% |
| Ceredigion | 18% |
| Montgomeryshire | 18% |
| Caithness, Sutherland and Easter Ross | 18% |
| Berwickshire, Roxburgh and Selkirk | 17% |
| Argyll and Bute | 17% |
| Dumfriesshire, Clydesdale and Tweeddale | 16% |

11.3. **Rhybudd o Gynnig - Gwasanaethau Eiddo Calon Cymru Cyf**

**Mae'r Cyngor hwn:**

- Yn cydnabod y buddsoddiad y mae'r Cyngor yn ei wneud yn ei Gwmni Cyd-Fenter Gwasanaethau Eiddo Calon Cymru Cyf;
- Yn cydnabod yr angen i'r Cyngor reoli ei ystad gorfforaethol;

  Yn cefnogi hawl tenantiaid y Cyngor i gael gwaith atgyweirio mewn amser rhesymol;
- Yn pryderu am yr amser a gymerir i ddychwelyd tai cyngor gwag i'w defnyddio ar ôl i denant ymadael;
- Yn cydnabod y pryderon a godwyd gan drigolion a Chynghorwyr ynghylch perfformiad Gwasanaethau Eiddo Calon Cymru Cyf ac felly:

Bod y Cyngor hwn yn penderfynu:

- Cynnal adolygiad cynhwysfawr i effeithiolrwydd Gwasanaethau Eiddo Calon Cymru Cyf wrth ymateb i anghenion ystad a thai cymdeithasol Cyngor Sir Powys;
- Ysgrifennu at Fwrdd Gwasanaethau Eiddo Calon Cymru i ofyn am

adolygiad o effeithiolrwydd ei swyddogaethau corfforaethol a'i hyfywedd ariannol sy'n adrodd ei ganfyddiadau i Gyngor Sir Powys fel rhan berchennog o’r cwmni

- Sefydlu pwynt cyswllt penodol ar gyfer aelodau etholedig Cyngor Sir Powys sy'n delio â Gwasanaethau Eiddo Calon Cymru Cyf;
- Sefydlu mecanwaith adrodd blynyddol ar gyfer Gwasanaethau Eiddo Calon Cymru Cyf i adrodd i Gyngor Sir Powys.

Cynigydd: Cynghorydd Sir Susan McNicholas
Eilydd: Cynghorydd Sir Matthew Dorrance

11.4. **Rhybudd o Gynnig - Annog merched i fynd am rolau mewn gwleidyddiaeth**

I ddathlu canmlwyddiant merched yn ennill y bleidlais, mae'r cyngor hwn yn cydnabod y cyfraniad anhygoel y mae merched wedi gwneud i wleidyddiaeth ym Mhowys, Cymru a'r Deyrnas Unedig er cyn cof.

Bydd y cyngor hwn yn parhau i annog merched i redeg am rolau gwleidyddol yn y dyfodol a byddant yn ymdrechu i'w cynorthwyo mewn unrhyw ffordd y mae’n gallu.

Cynigydd: Y Cynghorydd Sir Liam Fitzpatrick
Eilydd: Y Cynghorydd Sir Amanda Jenner

| **12.** | **CWESTIYNAU YN UNOL A'R CYFANSODDIAD** |
|---|---|

12.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Addysg gan y Cynghorydd Sir Phil Pritchard**

Ysgolion Newydd y Trallwng: Mewn cyd-gyfarfod cynnar o lywodraethwyr 5 ysgol, cytunodd y Swyddogion i “ymgynghori” gyda PHOB FFYDD yn y Trallwng ynglŷn â’r mater hwn. A allwch chi ddweud wrthyf sawl un o’r 5 neu 6 Ffydd a ymgynghorwyd â hwy, a sawl cyfarfodyd a gynhaliwyd gyda hwy, a pha nodiadau/cofnodion a gadwyd?
(Tudalennau 815 - 816)

12.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Tai a Chefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir Phil Pritchard**

Ydych chi'n gallu dweud wrthyf am faint y buodd tai cyngor yn wag ar gyfartaledd (y cyfnod rhwng un tenant yn gadael tŷ cyngor a thenant arall yn mynd i fyw yno) yn y flwyddyn ddiwethaf cyn i gontractwyr Kier gymryd yr awenau? Am faint mae tai cyngor wedi bod yn wag ers i Kier ymgymryd â'r gwaith? Er gwybodaeth, mae gennyf nifer o dai yn Y Trallwng sydd wedi bod yn wag ers sawl mis, a rhai dros ddeuddeng mis. Mae un tŷ wedi bod yn wag ers dros dair blynedd hyd y gwn i!

(To Follow)

12.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Eiddo a Gwastraff gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

Mae Cyngor Sir Powys wedi dod â chasgliadau plastig meddal o ymyl y ffordd i ben. Roedd rhai cymunedau'n gweithio mewn partneriaeth â Chae Post i drefnu mannau casglu plastig meddal yn eu hardal leol y gallai trigolion eu defnyddio. Yn anffodus, yn dilyn cyhoeddiad Cae Post ei fod wedi dod a'i gasgliadau ailgylchu masnachol a gwastraff i ben, nid oes cwmni gan y cymunedau i weithio gyda hwy ar y math yma o ddeunydd. A all y cyngor ystyried darparu'r gwasanaeth yma i gymunedau ar yr un fath o drefniant a oedd Cae Post?
(Tudalennau 817 - 818)

12.4. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Tai a Chefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan**

Beth yw'r costau hyd yma, a'r costau blynyddol i'r Cyngor o ran defnyddio a rhenti'r man storio yn Hirddol, Machynlleth?
(Tudalennau 819 - 820)

12.5. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Eiddo a Gwastraff gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

Mae trigolion Powys yn gwbl ymwybodol bod gan Gyngor Sir Powys nifer o faterion pwysig i ddelio â nhw ar hyn o bryd mewn perthynas â throsglwyddiadau asedau rhwng y cyngor a chymunedau.

Byddai Cyngor Tref y Gelli yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r cabinet a thim cyfreithiol Phowys i symud hyn ymlaen ar gyfer y Gelli Gandryll cyn gynted ag y bo modd. Felly, fel aelod lleol y Gelli, hoffwn ofyn a yw'n bosibl i'r aelod(au) portffolio perthnasol a'r tîm cyfreithiol i gwrdd â chynrychiolwyr y Cyngor Tref a minnau, er mwyn symud ymlaen a chwblhau'r materion sydd heb eu datrys ynglyn â'r broses trosglwyddo asedau mewn perthynas â Gelli Gandryll?
(Tudalennau 821 - 822)

12.6. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Priffyrdd gan y Cynghorydd Sir David Selby**

Pa gynnydd sy’n cael ei wneud i gynllunio ar gyfer tynnu statws cefnffordd oddi ar yr A489 trwy’r Drenewydd unwaith y bydd y Ffordd Osgoi yn agor y flwyddyn nesaf?
(Tudalennau 823 - 824)

12.7. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Adnoddau Dynol, TGCh a Chyfathrebu gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts**

Datganwyd yng nghyfarfod diwethaf llawn y cyngor y byddai cael gŵyl banc ar Ddydd Gŵyl Dewi’n costio’r cyngor £600,000. Nid oedd modd rhoi gwahanol elfennau’r gost hon adeg honno. Felly, ydych chi’n gallu rhoi dadansoddiad o’r costau y byddai’r Cyngor yn eu hwynebu? Y gwahaniaeth rhwng costau sy’n deillio o weithwyr yn cynhyrchu llai gan eu bod yn cael diwrnod ychwanegol i ffwrdd, a chostau diamau ychwanegol i’r cyngor, e.e. taliadau am oriau tros ben? Hefyd, allech chi ddweud faint fyddai’n costio pe bai’r Cyngor yn cael gŵyl banc ar Ddydd Gŵyl Dewi yn lle gŵyl y banc Calan Mai?

(To Follow)

12.8. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Tai a Chefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts**

Mae methiant lleiafrif o berchnogion cŵn i reoli a glanhau ar ôl eu hanifeiliaid wedi dod yn broblem gynyddol ledled y Sir. A fyddai deilydd y portffolio yn ystyried cyflwyno gorchymyn rheoli tebyg i'r hyn a ddefnyddir gan Rhondda Cynon Taf i fynd i'r afael â'r broblem ar dir sydd ym mherchnogaeth y cyngor ac ardaloedd hamdden?
(Tudalennau 825 - 826)

12.9. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio arfaterion Gwasanaethau Oedolion gan y Cynghorydd Sir David Meredith**

Ydy’r Cyngor yn gwneud asesiadau priodol i sicrhau bod y trefniadau gofal cymdeithasol cywir yn eu lle ar gyfer preswylwyr sy’n dychwelyd adref ar ôl aros yn yr ysbyty?
(To Follow)

12.10. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Oedolion gan y Cynghorydd Sir David Meredith**

Sut mae’r cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr Gofal Iechyd a Chymdeithasol yn y sectorau preifat a chyhoeddus i sicrhau bod cyn lleied o oedi ag y bo modd wrth drosglwyddo gofal?
(To Follow)

12.11. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ar sut mae ei gweinyddiaeth yn gweithio gydag Undebau Credyd ym Mhowys ac yn eu gefnogi?

(Tudalennau 827 - 828)

12.12. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Tai a Chefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i gefnogi'r rhai sy'n rhenti'n breifat a mynd i'r afael â landlordiaid di-egwyddor?

(Tudalennau 829 - 834)

12.13. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Tai a Chefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir William Powell**

Pa fecanweithiau y mae'r Aelod Cabinet a'i dîm o swyddogion yn eu defnyddio i sicrhau bod datblygiadau preswyl led led y Sir, yn ardaloedd cynllunio Cyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn cyfateb i'r prawf o'r angen am dai, o ran nifer a math.

Yn achos datblygiad (au) o fewn ardal APCBB, sut mae Cyngor Sir Powys, fel yr awdurdod tai, yn sicrhau bod arian a ddyrennir fel cyfraniadau tai fforddiadwy yn cael ei fuddsoddi'n briodol mewn datblygiad(au) fforddiadwy o fewn ffin y sir - ac yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor?

(Tudalennau 835 - 836)

12.14. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Gwasanaethau Tai a Chefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir William Powell**

Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, y Cynulliad Cenedlaethol wedi adrodd yn ddiweddar bod y cynnydd ar draws Cymru wedi bod yn araf o ran cyflwyno mannau byw 'uwchben y siop' fforddiadwy. Beth mae Cyngor Sir Powys yn ei wneud ar hyn o bryd gydag asiantaethau partner i wneud cyfraniad penodol i fynd i'r afael â'r her yma o fewn y Sir?

(Tudalennau 837 - 846)